



## COFNOD AMGYLCHEDD HANESYDDOL HENEB

### Polisi Mynediad ac Adfer Costau

#### Cyflwyniad

Mae Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) Heneb a luniwyd ac a gynhelir gan Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru (pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru gynt) yn darparu catalog cynhwysfawr o safleoedd a chanfyddiadau archaeolegol a hanesyddol o bob cyfnod ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 420,000 o gofnodion unigol yn y CAH, ac maent yn cael eu diweddarau a'u hehangu'n barhaus wrth i wybodaeth newydd ddod i law.

Mae'r CAH yn cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau, gan gynnwys cynorthwyo'r gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol, llywio cynllunio a datblygu, ac fel ffynhonnell ar gyfer cyfrannu tuag at brosiectau hanes lleol, cadwraeth a thwristiaeth. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ynglŷn â mynediad at wybodaeth a gynhwysir yn y cofnod.

Gosododd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016<sup>1</sup> ddyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i 'lunio cofnod o'r amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru, a'i gadw'n gyfoes'. Gosododd Adran 36 ddyletswydd mynediad at y CAH. Dewisodd Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r CAHau oedd yn bodoli eisoes gan bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru (sydd bellach yn un CAH dan ofal Heneb ers Ebrill 1<sup>af</sup> 2024) er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, a dangos y CAH statudol i'r cyhoedd drwy wefan Archwilio (<https://archwilio.org.uk/wp/cy/>). Fodd bynnag, nid yw Archwilio yn darparu mynediad at y CAH llawn, ac er mwyn cael gwybod a yw'r cofnod yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol nad yw ar gael ar-lein, dylai defnyddwyr gysylltu â'r CAH yn uniongyrchol. Ers 2023, mae deddf 2016 wedi'i hymgorffori ynghyd â deddfwriaeth gysylltiedig ynglŷn ag amgylchedd hanesyddol Cymru dan Ddeddf Yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023<sup>2</sup> (gweler adran 195).

Cedwir y CAH mewn system rheoli data soffistigedig y mae ei hadeiledd yn bodloni safonau cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer cofnodi lefel gyson o wybodaeth ar gyfer pob cofnod. Mae'r CAH yn cynnwys cofnodion ar gyfer asedau hanesyddol yn ogystal â digwyddiadau<sup>3</sup> sydd wedi bod ers yr 16<sup>eg</sup> ganrif. Mae'r wybodaeth a gofnodwyd yn cynnwys manylion megis cyfeirnod grid, cymuned, statws dynodedig, math o ased hanesyddol, cyfnod, cyflwr a ffynonellau llyfryddiaethol. Mae'r CAH hefyd yn cynnwys cofnodion atodol cartograffig, dogfennol a ffotograffig, ac nid yw llawer o'r rhain yn bodoli ar ffurf ddigidol. Mewn nifer o achosion, cynnwys y cofnodion yw crynodeb neu fynegai o wybodaeth a gofnodwyd yn rhywle arall; mae'r CAH felly yn darparu mynegbost a man cychwyn defnyddiol tuag at wybodaeth ynglŷn â'r amgylchedd hanesyddol. Yn aml felly, bydd angen galw am wasanaethau archaeolegydd profiadol er mwyn cael amcan o arwyddocâd llawn safleoedd

<sup>1</sup> <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/welsh/data.pdf>

<sup>2</sup> <https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/3/welsh/data.pdf>

<sup>3</sup> Caiff *Digwyddiad* ei ddiffinio gan Weithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru fel unrhyw ddarn o waith archaeolegol, boed hwnnw o natur ymwthiol (e.e. Cloddio), anymwthiol (e.e. Arolwg Ffotograffig), neu reolaethol (e.e. Cynllun Rheoli neu Reoli Llystyfiant).



penodol a restrir yn y cofnod.

Mae hawlfraint i adeiledd data a chynnwys y CAH yn perthyn i Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru oni nodir yn wahanol. Mae cyfran o gostau cynnal a datblygu'r CAH yn cael eu talu gan Cadw, Awdurdodau Unedol (a chyllid grant arall), ond codir incwm ychwanegol er mwyn talu am gostau ymholiadau allanol o natur fasnachol.

## Amodau

1. Bydd modd cael mynediad at wybodaeth a gedwir yn y CAH ar unrhyw amser rhesymol fel arfer.

*Yn y man cyntaf, gofynnir i Ddefnyddwyr lenwi ffurflen gais ar-lein yn amlinellu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt a'r rheswm dros eu hymholiad. Gellir cael doler i'r ffurflen ar-lein drwy fynd i wefan Heneb, neu drwy e-bostio, ffonio neu ysgrifennu at CAH Heneb. Os nad oes modd ateb yr ymholiad ar unwaith, dylai Defnyddwyr ddisgwyl cael gwybod pryd ac ym mha ffurf y gellir sicrhau bod y wybodaeth ar gael.*

2. Gwrthodir mynediad at wybodaeth a gedwir yn y CAH os bernir y gallai ei rhyddhau beryglu'r adnodd archaeolegol.

*Gofynnir i Ddefnyddwyr ddatgan at ba ddibenion y gwneir cais am y wybodaeth, rhoi ymrwymiad mai at y diben a ddatganwyd yn unig y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio, ac na fydd yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig y CAH. Gallai camdefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd arwain at erlyniad neu waharddiad rhag cael mynediad pellach at y CAH.*

*Dylai Defnyddwyr sicrhau y ceisir cyngor archaeolegol arbenigol ynglŷn ag effeithiau posib unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar yr adnodd archaeolegol.*

3. Gwneir ymdrechion rhesymol i ddilysu'r wybodaeth a gynhwysir yn y CAH, ond bydd Defnyddwyr yn gyfrifol am wirio bod y wybodaeth yn gywir.

*Mae'r cofnodion yn y CAH wedi'u casglu o nifer o ffynonellau amrywiol, ac mae'n bosib nad yw rhai o'r rheiny wedi'u dilysu.*

*Mae'r CAH yn croesawu gwybodaeth a dderbynnir ynglŷn ag unrhyw wallau.*

4. Bydd gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig a roddir gan y Defnyddiwr ac a osodir yn y CAH yn cael ei thrin mewn modd priodol. Dylid rhoi gwybod i'r CAH am unrhyw wybodaeth o'r fath ar adeg ei chyflwyno.

5. Bydd gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig a gynhwysir yn y CAH yn cael ei dal yn ôl oni bai bod Defnyddwyr wedi derbyn y caniatadau priodol ymlaen llaw.

6. Bydd mynediad uniongyrchol at y CAH gan Ddefnyddwyr yn ôl disgrisiwn staff y CAH.

*Gallai amgylchiadau ganiatáu i Ddefnyddwyr gyrchu gwybodaeth drostynt eu hunain o'r CAH, er y bydd yn fwy priodol fel*



arfer iddynt gael cymorth gan staff y CAH.

7. Disgwylir i Ddefnyddwyr y CAH gadw at yr holl gyfyngiadau hawlfraint a chyfyngiadau cyfreithiol eraill a all fod yn berthnasol i wybodaeth a gedwir yn y cofnod.

*Gallai cofnodion atodol gynnwys deunydd y mae'r hawlfraint iddo gan sefydliadau eraill. Mae Deddf Diogelu Data 1998 hefyd yn rheoli rhyddhau mathau penodol o wybodaeth.*

*Dylid cyfeirio at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnod Amgylchedd Hanesyddol Cymru' am fanylion ynglŷn â Hawlfraint a chydabyddiaethau.*

8. Gellir gosod cyfyngiadau ar faint o wybodaeth a ryddheir i unrhyw Ddefnyddiwr unigol.

*Gellir gosod cyfyngiadau os y bernir bod perygl y gallai hyn arwain at ddefnydd heb ei reoli ar rannau sylweddol o'r cofnod neu sefydlu cronfa ddata i gystadlu sydd heb ei rheoleiddio.*

*Caiff cytundeb trwydded ei arwyddo fel rhan o'r ffurflen ymholiad i'r CAH. Gall fod angen i Ddefnyddwyr ymrwymo i gytundeb trwyddedu wedi'i deilwra cyn y gellir rhyddhau data, yn ddibynnol ar natur eu hymholiad.*

9. Bydd angen i Ddefnyddwyr gydnabod y defnydd a wnaed o'r CAH mewn unrhyw ddogfen neu adroddiad a gyhoeddir.

*Dylid cyfeirio at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnod Amgylchedd Hanesyddol Cymru' am fanylion ynglŷn â Hawlfraint a chydabyddiaethau.*

10. Disgwylir i Ddefnyddwyr sicrhau bod unrhyw wybodaeth newydd neu ddiwygiedig ar gael i'w hymgorffori yn y CAH, o fewn amserlen resymol. Perchir ceisiadau i fod gyntaf yn cyhoeddi gwybodaeth newydd pan fydd y cyfrannwr yn gofyn am hynny.

*Dylid cyfeirio at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnod Amgylchedd Hanesyddol Cymru' am faterion sy'n ymwneud â chynnwys, ffurf a chyflwyno cofnod.*

11. Codir tâl fel arfer er mwyn adfer costau ymateb i bob ymholiad.

*Nid yw CAH Heneb am wneud elw, ond dylai Defnyddwyr ddisgwyl talu tâl rhesymol fel arfer er mwyn talu am gostau darparu gwybodaeth. Oherwydd y gall ymholiadau fod yn eithriadol o amrywiol, nid yw'n briodol cael graddfa osodedig o daliadau. Os yw'n debygol y bydd angen gwaith sylweddol, dylai'r Defnyddiwr ofyn am amcangyfrif o'r costau rhag blaen.*

*Bydd y taliadau fel arfer ar sail adfer-costau, er y gallai'r rhain gael eu lleihau neu eu hepgor yn llwyr ar gyfer ymholiadau anffurfiol neu rai sy'n ymwneud ag ymchwil pur (ble rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i p'un ai bydd y Defnyddiwr yn caniatáu i wybodaeth newydd neu ddiwygiedig fod ar gael am ddim i'w hymgorffori yn y CAH). Bydd y taliadau ar gyfer cyrff neu unigolion sy'n ymgymryd â gwaith ar sail fasnachol yn cael eu gosod ar sail adfer costau yn llawn fel arfer, gan gynnwys costau cyflogi staff.*

*Dylid cysylltu â'r CAH i gael eu strwythur taliadau llawn a'u cyfraddau adfer costau ar gyfer darparu ac atgynhyrchu*



gwybodaeth.

## Cyfeiriadau Defnyddiol

### CAH Heneb

E-bost: [her@heneb.org.uk](mailto:her@heneb.org.uk)  
(Ar gyfer pob ymholiad cyffredinol mewn perthynas â'r CAH)

### Heneb: Archaeoleg Clwyd-Powys

Y Swyddfeydd  
Coed y Dinas  
Y Trallwng  
SY21 8RP  
Ffôn: 01938 532774

### Heneb: Archaeoleg Dyfed

Tŷ Cornel  
6 Stryd Caerfyrddin  
Llandeilo  
Sir Gaerfyrddin  
SA19 6AE  
Ffôn: 01558 825994

### Heneb: Archaeoleg Morgannwg Gwent

Canolfan Fusnes SA12  
Ystad Ddiwydiannol Seaway Parade  
Baglan  
Port Talbot  
Ffôn: 01792 655208

### Heneb: Archaeoleg Gwynedd

Craig Beuno  
Ffordd Garth  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 2RT  
Ffôn: 01248 352535

### Cadw

Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QQ  
Ffôn: 01443 33 6000  
gwefan: <http://www.cadw.llyw.cymru>

### Y Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF  
Ffôn: 0303 123 1113  
gwefan: <https://ico.org.uk/>

### Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)

Ffordd Penglais  
Aberystwyth  
SY23 3BU  
Ffôn: 01970 621200  
E-bost: [chc.cymru@cbhc.gov.uk](mailto:chc.cymru@cbhc.gov.uk)  
gwefan: <https://cbhc.gov.uk/>

**Gellir cyfeirio cwynion at y CAH cyfan neu'n rhanbarthol.**